# Darparu newyddion a gwybodaeth leol ar radio masnachol analog

Canllawiau Drafft i drwyddedeion

**Canllawiau Drafft**

Cyhoeddwyd 1 Gorffennaf 2025

# Cynnwys

## Adran

1. Cyflwyniad ........................................ 3
    1.1 Pwrpas y Canllawiau ........................................ 3
    1.2 Fframwaith Deddfwriaethol a Diffiniadau ........................................ 3
2. Newyddion a gwybodaeth leol - canllawiau arfaethedig ........................................ 4
    2.1 Newyddion lleol ........................................ 4
    2.2 Newyddion sy’n cael ei gasglu’n lleol ........................................ 5
    2.3 Gwybodaeth leol ........................................ 7
    2.4 Ffeil gyhoeddus ........................................ 7

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Pwrpas y Canllawiau

O dan adran 314(2)(a) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (“Deddf 2003”) mae’n rhaid i Ofcom gyhoeddi canllawiau ar sut rydym yn credu y gall trwyddedeion weithredu’n gyson ag amodau trwydded sy’n ymwneud â newyddion a gwybodaeth leol ar radio masnachol analog lleol. Mae **Adran 2** yn nodi'r canllawiau hyn.

Mae Adran 314(2)(b) o Ddeddf 2003 yn mynnu bod Ofcom yn ystyried canllawiau o’r fath wrth ymgymryd â’n swyddogaethau sy’n ymwneud â newyddion a gwybodaeth leol o dan adran 314(1) o Ddeddf 2003.

Mae’r ddogfen hon yn nodi ein canllawiau ar:

a) Darparu newyddion a gwybodaeth leol

b) Sut gallai trwyddedeion fodloni’r gofyniad i ddarparu newyddion sy’n cael ei gasglu’n lleol, gan gynnwys canllawiau ar yr amlblecs(au) perthnasol ar gyfer pob trwydded radio masnachol analog lleol at ddibenion casglu newyddion lleol.

Byddwn yn ystyried y canllawiau hyn pan fyddwn yn ystyried a yw trwyddedai wedi bodloni’r gofynion yn ei drwydded sy’n ymwneud â darparu newyddion a gwybodaeth leol.

Un o amodau trwyddedau gorsafoedd radio masnachol analog lleol yw eu bod yn darparu ffeil gyhoeddus.

Mae’r canllawiau hyn yn disodli canllawiau blaenorol Ofcom ar ‘Lleolrwydd ar radio masnachol’ a ‘Darparu ffeiliau cyhoeddus ar gyfer radio masnachol lleol’.

## 1.2 Fframwaith Deddfwriaethol a Diffiniadau

Cafodd Deddf 2003 ei diwygio gan Ddeddf Cyfryngau 2024 a oedd wedi cyflwyno darpariaethau i ddiogelu darparu newyddion a gwybodaeth leol ar radio masnachol analog lleol.

Yn unol â gofynion a.314 o Ddeddf 2003, rydym wedi cynnwys amodau rydym yn credu sy’n briodol mewn trwyddedau sy'n ymwneud â darlledu newyddion lleol (gan gynnwys newyddion sy’n cael ei gasglu’n lleol) a gwybodaeth leol. Gall yr union ofynion a osodir ar drwyddedai penodol amrywio o’r rheini a osodir ar drwyddedeion eraill. Er enghraifft, mae trwyddedeion sydd â throsiant isel iawn yn rhwym wrth amod trwydded sydd â gofyniad llai o ran darparu newyddion lleol a dim gofyniad i ddarlledu newyddion sy’n cael ei gasglu’n lleol.

Felly fe ddylai darllenwyr bob amser ddarllen y canllawiau yng ngoleuni amodau eu trwydded, ac ochr yn ochr â nhw.

Mae gofyniad arnom i lunio canllawiau ynghylch sut rydym yn credu y gallai trwyddedeion weithredu’n gyson â’r amodau trwydded hyn. Y ddogfen hon yw’r canllawiau y mae’n rhaid i Ofcom eu cyhoeddi dan adran 314(6) o Ddeddf 2003. At ddibenion y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at ‘drwydded darlledu sain leol’ fel ‘trwydded radio masnachol analog lleol’ a ‘gwasanaeth darlledu sain lleol’ fel ‘gwasanaeth radio masnachol analog lleol’.

# 2. Newyddion a gwybodaeth leol – canllawiau arfaethedig

## 2.1 Newyddion lleol

Fel y nodir uchod, mae newyddion lleol wedi'i ddiffinio yn Neddf 2003 ac ym mhob trwydded darlledu sain leol fel *"newyddion sydd o ddiddordeb penodol— (a) i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r ardal leol y darperir y gwasanaeth ar ei chyfer; (b) i bobl sy'n byw neu'n gweithio mewn rhan o'r ardal neu'r ardal leol honno; neu (c) i gymunedau penodol sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r ardal leol honno neu ran ohoni."*

### 2.1.1 Canllawiau newyddion lleol cyffredinol

Dylai newyddion lleol fod o ansawdd uchel, yn berthnasol, yn amserol ac yn gywir, ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio'n llawn â gofynion y Cod Darlledu. Byddem yn disgwyl i straeon newyddion lleol fod yn gyfredol a chael eu diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu datblygiadau newydd yn brydlon, ac y dylai recordio bwletinau newyddion ymlaen llaw fod yn eithriad yn hytrach na'r norm.

Efallai bod straeon chwaraeon lleol a newyddion adloniant yn berthnasol yn lleol ond ni ddylent fod yn brif elfen y cynnwys newyddion lleol.

Dylai newyddion lleol geisio adlewyrchu diddordebau a phryderon gwrandawyr sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal. Er y gallai newyddion y gwledydd, cenedlaethol a rhyngwladol fod o ddiddordeb i'r rheini mewn ardal drwyddedig, yn gyffredinol ni fydd o "ddiddordeb penodol" i'r rheini sy'n byw yn yr ardal honno. Felly, ein man cychwyn yw nad yw'n newyddion lleol, fel sy'n ofynnol gan y drwydded. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'n cael ei gasglu yn yr ardal drwyddedig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod adegau pan fydd newyddion y gwledydd neu genedlaethol o ddiddordeb arbennig i'r rheini sy'n byw yn yr ardal a wasanaethir gan y gwasanaeth trwyddedig, ac yn yr amgylchiadau hynny byddai'n cael ei ystyried yn newyddion lleol.

Fel y nodir uchod, dylai newyddion lleol geisio adlewyrchu diddordebau a phryderon gwrandawyr sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal. Rydym yn cydnabod y gallai gorsafoedd sy'n targedu 'cymuned fuddiant', fel cynulleidfa ethnig leiafrifol a/neu grefyddol benodol yn yr ardal honno, ddymuno cynnwys deunydd newyddion a nodweddir gan ei berthnasedd uniongyrchol i'r 'gymuned fuddiant' yn fwy cyffredinol. Rydym yn cydnabod y gall trwyddedeion ddymuno parhau i ddarparu'r deunydd hwn ochr yn ochr â newyddion lleol. Mewn rhai achosion, lle mae'r newyddion yn arbennig o berthnasol i'r 'gymuned fuddiant' *yn yr ardal a wasanaethir gan y gwasanaeth trwyddedig*, gellir hefyd ei ystyried yn newyddion lleol.

### 2.1.2 Amlder newyddion lleol

Pan fydd yn rhaid i drwyddedeion ddarparu newyddion lleol bob awr yn ystod yr wythnos rhwng 6am a 7pm, byddem yn disgwyl i newyddion lleol gael ei ddarlledu bob awr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid darlledu'r newyddion ar yr awr neu union awr ar ôl y darllediad blaenorol. Mae amseriad y darllediad newyddion lleol yn fater golygyddol i'r trwyddedai ond wrth fodloni'r amod hwn byddem yn disgwyl i'r newyddion gael ei ddarlledu o leiaf 13 gwaith rhwng 6am a 7pm.

Mewn rhai achosion, rydym wedi nodi ystodau amser y bydd angen i newyddion lleol ddarlledu ynddynt ar o leiaf dri achlysur gwahanol. Rydym o'r farn bod amseriad darllediadau newyddion lleol yn fater golygyddol i'r trwyddedai. Nid oes gofyniad i newyddion lleol gael ei ddarlledu bob awr yn yr

achos hwn na bod angen sicrhau bod bwlch cyfartal rhwng darllediadau newyddion lleol yn ystod y cyfnod dan sylw. Fodd bynnag, dylai trwyddedeion sicrhau bod y darllediadau newyddion lleol yn wahanol a bod bwlch addas rhyngddynt. Yn gyffredinol ni fyddem yn ystyried bod tri darllediad mewn cyfnod byr o amser e.e. o fewn awr yn fwlch addas.

Rydym yn cydnabod nad bwletinau y gellir eu hadnabod yn glir yw'r unig ffordd o ddarlledu newyddion lleol a phan fydd gwasanaeth yn darlledu cynnwys lleol yn ystod awr o raglenni, efallai y bydd yn gallu bodloni ei ofyniad i ddarlledu newyddion lleol drwy'r rhaglenni hyn. Y rheswm am hyn yw ein bod yn cydnabod y gall y cynnwys lleol hwn gynnwys elfennau o newyddion lleol fel rhan o'i gyflwyniad cyffredinol. Os nad yw trwyddedai'n darlledu cynnwys lleol yn ystod cyfnod penodol, ond ei fod yn darlledu cynnwys sydd wedi'i rwydweithio'n genedlaethol yn lle hynny, byddai angen iddo wedyn ddarlledu bwletin newyddion lleol i fodloni ei ofyniad yn ystod y cyfnod hwnnw.

### 2.1.3 Perthnasedd lleol newyddion lleol

Yn unol â'r diffiniad yn Neddf 2003, mae'r diffiniad o newyddion lleol ym mhob trwydded yn cyfeirio at newyddion sydd o ddiddordeb arbennig i bobl benodol yn yr “ardal neu'r ardal leol y darperir y gwasanaeth ar ei chyfer” (h.y., yn ardal ddarpariaeth y gwasanaeth trwyddedig). Mae'n agored i drwyddedeion rannu rhaglenni newyddion, gan gynnwys rhaglenni newyddion lleol. Mae Ofcom yn cydnabod y gall newyddion fod o 'ddiddordeb penodol' i bobl mewn ardaloedd darpariaeth cyfagos, er enghraifft.

Fodd bynnag, pan fydd rhaglenni newyddion yn 'lleol' at ddibenion un gwasanaeth trwyddedig, nid yw'n dilyn yn awtomatig ei fod yn newyddion 'lleol' ar gyfer gwasanaethau trwyddedig eraill. Bydd hyn yn dibynnu ar faint unrhyw orgyffwrdd rhwng poblogaeth y gwahanol wasanaethau hynny. Dylai trwyddedeion sy'n dymuno defnyddio'r un rhaglenni newyddion fel 'newyddion lleol' mewn perthynas â gwahanol wasanaethau trwyddedig (ac ardaloedd darpariaeth) ystyried yn ofalus a yw'r newyddion o ddiddordeb penodol i bobl ym mhob un o'r ardaloedd darpariaeth hynny.

Mae hyn yn golygu sicrhau:

(i) bod ystyriaeth olygyddol ddigonol yn cael ei rhoi i bob ardal drwyddedig sy'n derbyn bwletin penodol, a

(ii) nad yw ffocws straeon wedi'i ganolbwyntio yn un o'r ardaloedd trwyddedig sy'n cael sylw yn y bwletin.

## 2.2 Newyddion sy’n cael ei gasglu’n lleol

Mae’n ofynnol i’r rhan fwyaf o drwyddedeion sicrhau bod y newyddion lleol maen nhw’n ei ddarlledu yn cynnwys newyddion sy’n cael ei gasglu’n lleol.

Yn unol â'r diffiniad yn Neddf 2003, mae'r diffiniad o newyddion “sy’n cael ei gasglu'n lleol” at ddiben yr amod hwn yn cyfeirio at newyddion a gasglwyd:

a) yn ardal ddarpariaeth gwasanaeth amlblecs radio lleol sydd i raddau helaeth yn cynnwys ardal ddarpariaeth y gwasanaeth darlledu sain lleol neu, lle nad oes amlblecs o’r fath, yn ardal ddarpariaeth y gwasanaeth trwyddedig (rydym yn cyfeirio at yr ardal hon fel yr “ardal berthnasol”);

b) gan bobl sy'n casglu newyddion yn ystod cyflogaeth neu fusnes.

### 2.2.1 Beth yw newyddion sy’n cael ei gasglu’n lleol

Mae gan newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol ystyr penodol yn y drwydded ac mae'n ymwneud â newyddion sy'n cael ei gasglu yn yr ardal berthnasol ar gyfer y gwasanaeth trwyddedig hwnnw. Nid

yw'n un o ofynion trwyddedau radio masnachol lleol bod newyddion lleol, nac unrhyw ddeunydd arall, yn cael eu 'gwneud yn lleol' (h.y., bod y rhaglenni eu hunain a ddarlledir yn cael eu cynhyrchu yn yr ardal berthnasol).

Rydym yn ystyried bod ‘casglu yn’ o fewn y cyd-destun hwn yn golygu casglu newyddion gan rywun sy’n bresennol yn gorfforol yn yr ardal berthnasol er mwyn casglu’r wybodaeth. Er enghraifft, ni fyddai senario lle mae gwrthrych y newyddion (e.e. cyfwelai) wedi'i leoli yn yr ardal berthnasol, ond bod y person sy'n casglu'r newyddion yn rhywle arall adeg casglu'r newyddion, yn gyson ag amod y drwydded (a'r diffiniad statudol). Byddem o'r farn bod hyn yn golygu newyddion sy'n cael ei gasglu *o'r* ardal berthnasol, yn hytrach nag *yn* yr ardal honno, gan y byddai'n cael ei wneud o bell heb i’r unigolyn fod yn yr ardal. Mae hyn yn golygu y bydd angen digon o adnoddau newyddiadurol wedi'u lleoli yn yr ardal berthnasol, neu o fewn cyrraedd yr ardal honno, i roi sylw digonol.

Nid oes angen i'r sawl sy'n casglu'r newyddion gasglu'r newyddion yn yr ardal berthnasol yn unig ac nid oes yn rhaid iddo ef/hi gael ei gyflogi gan y trwyddedai. Mae hyn yn golygu ei fod yn agored i drwyddedeion wneud trefniadau gyda thrydydd partïon, cyn belled â bod trwyddedeion yn gallu bodloni eu hunain bod newyddion sy'n cael ei gasglu fel hyn yn bodloni'r diffiniad statudol a nodir uchod. Ni fyddai’r defnydd o wirfoddolwyr i gasglu newyddion yn bodloni’r gofyniad i newyddion gael ei gasglu gan bobl yn ystod cyflogaeth neu fusnes.

Nid yw newyddion sy’n cael ei gasglu'n lleol yn 'newyddion lleol' yn ddiofyn; er mwyn bod yn newyddion lleol mae angen iddo fod o ddiddordeb arbennig i'r rheini sy'n byw/gweithio yn yr ardal (yn unol â'r diffiniad yn y drwydded a Deddf 2003). Ar y llaw arall, nid oes yn rhaid i’r holl newyddion lleol gael ei gasglu’n lleol, felly mae'n bosibl y bydd rhai straeon lleol yn cael eu casglu o'r tu allan i'r ardal berthnasol.

### 2.2.2 Ardal berthnasol ar gyfer casglu newyddion lleol

Fel yr eglurir uchod, mae gan newyddion sy'n cael ei gasglu'n lleol ystyr penodol ym mhob trwydded radio masnachol lleol ac mae'n ymwneud â newyddion sy'n cael ei gasglu yn yr ‘ardal berthnasol’ ar gyfer y gwasanaeth trwyddedig hwnnw. Mae hyn yn golygu casglu yn ardal ddarpariaeth y gwasanaeth amlblecs radio lleol sydd i raddau helaeth yn cynnwys ardal ddarpariaeth y gwasanaeth trwyddedig (“amlblecs perthnasol”) neu, lle nad oes amlblecs perthnasol, yn ardal ddarpariaeth y gwasanaeth trwyddedig.

Mater i drwyddedeion yw penderfynu yn y lle cyntaf a oes amlblecs perthnasol ar gyfer eu gwasanaeth(au) trwyddedig. Ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau trwyddedig rydym yn disgwyl y bydd amlblecs perthnasol.[1] Wrth benderfynu a oes gwasanaeth amlblecs o'r fath, byddem yn disgwyl i drwyddedeion ystyried a oes lefel sylweddol o orgyffwrdd (o ran poblogaeth) rhwng ardal ddarpariaeth gwasanaeth amlblecs a'r gwasanaeth trwyddedig. Nid yw’n ofyniad i ardal ddarpariaeth gwasanaeth amlblecs gynnwys ardal ddarpariaeth y gwasanaeth trwyddedig yn ei chyfanrwydd. Mae ein cyhoeddiad ar boblogaethau MCA a gorgyffwrdd yn cynnwys data ar y gorgyffwrdd mewn poblogaeth rhwng ardaloedd darpariaeth amlblecs lleol ac ardaloedd darpariaeth radio masnachol lleol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o drwyddedeion, byddem yn disgwyl mai'r amlblecs radio lleol a ddewiswyd fyddai'r un â'r gorgyffwrdd mwyaf sylweddol o ran poblogaeth â'r gwasanaeth trwyddedig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod rhesymau golygyddol pam fod trwyddedai'n credu na ddylid defnyddio'r amlblecs radio lleol sydd â'r gorgyffwrdd mwyaf o ran poblogaeth. Er enghraifft, pan

[1] Ar gyfer y rheini lle nad oes gwasanaeth amlblecs perthnasol, yr ardal berthnasol fydd ardal ddarpariaeth y gwasanaeth trwyddedig

fydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu i ardal wledig ond mae darpariaeth y gwasanaeth yn gorgyffwrdd ag ardal drefol sydd â phoblogaeth llawer mwy dwys. Mewn achosion o'r fath, gellid defnyddio ardal amlblecs radio lleol arall, ar yr amod ei bod yn bodloni'r gofyniad statudol h.y., mae'n cynnwys, i raddau helaeth, ardal ddarpariaeth y gwasanaeth darlledu sain lleol. Rydym yn nodi ein barn yn ein canllawiau 'Gweithdrefn adnewyddu ar gyfer trwyddedau analog lleol' sy'n golygu ardal ddarpariaeth sydd ag ardal drwyddedig sy'n darparu darpariaeth wirioneddol neu bosibl ar ffurf ddigidol i 25% neu fwy o'r boblogaeth oedolion yn nalgylch mesuradwy'r drwydded leol analog dan sylw. Rydym o'r farn bod gorgyffwrdd sylfaenol tebyg yn berthnasol yma wrth ystyried beth sy'n 'sylweddol'.

Mae'n debygol y bydd rhai gwasanaethau trwyddedig lle mae mwy nag un amlblecs perthnasol ar eu cyfer, er enghraifft, lle mae'r ardaloedd darpariaeth gwasanaeth trwyddedig yn cynnwys nifer o ganolfannau trefol sydd ag amlblecs radio lleol yn gysylltiedig â nhw. Yn yr achosion hyn, gall y trwyddedai ystyried bod mwy nag un amlblecs radio lleol yn berthnasol.

## 2.3 Gwybodaeth leol

Yn unol â CA03, mae gwybodaeth leol yn cael ei diffinio mewn trwyddedau radio masnachol lleol fel *"gwybodaeth sydd o ddiddordeb penodol— (a) i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r ardal leol y darperir y gwasanaeth ar ei chyfer; (b) i bobl sy'n byw neu'n gweithio mewn rhan o'r ardal neu'r ardal leol honno; neu (c) i gymunedau penodol sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r ardal leol honno neu ran ohoni."*

Er mai penderfyniad golygyddol yw pryd y bydd gwybodaeth leol yn cael ei darparu, byddem yn disgwyl y byddai gwybodaeth leol yn cael ei darlledu'n achlysurol yn ystod y dydd rhwng 7am a 6pm. Nid yw hyn yn golygu bod angen darparu pob math o wybodaeth leol yn ystod y dydd, gallai'r math o wybodaeth leol amrywio yn dibynnu ar yr adeg o'r dydd e.e. efallai y bydd rhybuddion traffig yn cael eu darlledu'n fwy aml yn ystod oriau brig. Byddem yn disgwyl i wybodaeth leol fod yn gyfredol a, lle bo'n berthnasol, gael ei diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu datblygiadau newydd yn brydlon.

Rydym yn credu bod modd darparu gwybodaeth leol mewn sawl ffordd (e.e. darllediadau awyr agored mewn digwyddiadau lleol, beth sydd ymlaen, newyddion teithio, cyfweliadau, gweithgareddau elusennol, tywydd, celf a diwylliant lleol, arlwy chwaraeon lleol, sesiynau ffonio mewn, rhyngweithio â gwrandawyr, ac ati), ond mai cyfrifoldeb yr orsaf ei hun yw pennu cydbwysedd rhwng y gwahanol elfennau.

Dylai'r ddarpariaeth reolaidd o wybodaeth leol gyfredol, ochr yn ochr â newyddion lleol, roi hyder i'r gwrandäwr y bydd materion o bwysigrwydd, perthnasedd neu ddiddordeb lleol i'r gynulleidfa darged yn yr ardal yn cael eu darlledu, gan gynnwys ar adegau o argyfwng (e.e. eira, llifogydd, ac ati).

## 2.4 Ffeil gyhoeddus

Pwrpas y Ffeil Gyhoeddus yw sicrhau bod trwyddedeion radio masnachol analog lleol yn dryloyw ynghylch sut maent yn bodloni'r gofynion yn eu trwyddedau sy'n ymwneud â darparu newyddion a gwybodaeth leol.

Dylai'r Ffeil Gyhoeddus nodi dull cyffredinol y trwyddedai o ymdrin â newyddion a gwybodaeth leol. Ni fyddem yn disgwyl i'r Ffeil Gyhoeddus gael ei diweddaru i adlewyrchu newidiadau *ad hoc*, fel bwletinau ychwanegol untro neu newidiadau mewn trefniadau casglu'n lleol i adlewyrchu digwyddiadau untro. Fodd bynnag, pan fydd newid sylweddol yn y ffordd o gydymffurfio â'r amodau newyddion a gwybodaeth leol, yna dylid diweddaru'r Ffeil Gyhoeddus i adlewyrchu hyn i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gywir.